CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, **Nos Lun 2ail o Ragfyr 2019,** am 6.30y.h. yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Llangefni.

PRESENNOL : Cyng. Margaret Ann Thomas - Cadeirydd
Cyng. Arwel Môn Hughes
Cyng. Llinos G. Jones
Cyng. John Lee
Cyng. Dylan W. Rees
Cyng. J. Egryn Lewis
Cyng. Richard Parry.
Cyng. Ieuan G. Davies
Cyng. Victor Hughes
Cyng. Terry Jones
Cyng. Non W. Parry
Cyng. Christine Roberts
Cyng. J. Huw Owen

HEFYD YN BRESENNOL : Mr. Rhys Parry - Clerc
Ms. Linda Powell - Cymorthydd Clerigol
Heddlu : PS2150 - Neil Jones
PCSO3031 - Lee Monk.

Cadeirydd yn gofyn i'r Aelodau sefyll am funud o ddistawydd er cof am y cyn-gynghorydd David Devenport Evans.

19/195 **YMDDIHEURIADAU :** Dim.

19/196 **DATGANIAD O DDIDDORDEB :** Cyng. Christine Roberts : Eitem 19/204 – Seddi Gwag.

19/197 **HEDDLU GOGLEDD CYMRU :**

1 **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol o gwmpas y Dref : Prosiect i Bobl Ifanc Lleol (Cyllid)**

Cynrychiolydd o'r Heddlu yn cyfeirio at lwyddiant y Prosiect uchod yn ystod cyfnod hanner tymor Hydref eleni, ac yn cyflwyno Cais dilyniant i ymestyn y Prosiect i hanner tymor Chwefror a Gwyliau Haf 2020. Cadeirydd yn cadarnhau fod Cyfarfod Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol 18.11.2019 wedi trafod Cais yr Heddlu am gymorth ariannol o £300.00 a fyddai yn dod o Gronfa Hawliau Dan Ddiogelwch Cymunedol. (Eitem 19/181 o Gofnodion yr Is-bwyllgor 18.11.2019). **PENDERFYNWYD** debyn yr uchod.

(i) **Camerâu CCTV -** Heddlu yn tynnu sylw fod gordyfiant o'r coed yn ardal Toiledau Cyhoeddus y dref yn amharu ar Gamerâu CCTV. Cadeirydd yn adrodd fod ymweliad safle i'w drefnu gyda Swyddog o Adran Cynllunio, Cyngor Sir Ynys Môn, Contractwr Arbenigol a Dirprwyo'r Cyngor Tref, i symud ymlaen i gael tocio'r coed. **Derbyn.**

(ii) **Toiledau Cyhoeddus -** Heddlu yn adrodd fod y Toiledau wedi bod ar gau oherwydd difrod a bod tri drwgdybio wedi cael eu cyfweld. Aelod yn awgrymu rhoi cyhoeddusrwydd i hyn yn y Wasg. **Derbyn.**

(iii) **Diogelwch - Cerddwyr yn Croesi'r Stryd Fawr/Safle Ysgolion -** Cyng. John Lee yn pryderu ynglŷn â diogelwch plant o gwmpas y dref tu allan i oriau Ysgol yn ymwneud a thrafnidiaeth drom a mannau croesi yn y dref. Cyng. Lee yn cadarnhau ei fod wedi tynnu hyn i sylw Pennaeth Ysgol Gyfun Llangefni, a'r Heddlu yn cadarnhau fod Swyddog Cyswllt Ysgolion yn ymwybodol o hyn, ac yn ymweld â'r Ysgol.

PARHAD
19/197

(iv) **Damweiniau a Mannau Croesi ar Stryd Fawr, Llangefni -** Cyng. Non Parry yn holi'r Heddlu ar hawliau'r cyhoedd i gael archwilio'r ystadegau yn ymwneud a damweiniau yn y dref. Heddlu yn ymateb, os ydyw'r Heddlu yn ymwybodol o'r ddamwain, bydd hyn wedi ei logio/cofnodi a'i fonitro ar database yr Heddlu ac ar wybodaeth ar gael o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (F.O.I.). **Derbyn.**

2 **Diweddaraf ar Ail-leoli'r Lloches –** Heddlu yn cadarnhau fod PCSO C3915 mewn cysylltiad gydag Arolygydd yr Heddlu, Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn, Swyddog Cyswllt Menter Môn ynghyd a phobl ifanc lleol ynglŷn â'r uchod. **Derbyn.**

Cadeirydd yn diolch i Swyddogion yr Heddlu am eu mewnbwn.

19/198 **I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD LLAWN 04.11.2019**

Cyng. Non W. Parry yn Cynnig a Cyng. Ieuan G. Davies yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn yr uchod.

19/199 **I YSTYRIED MATERION YN CODI O GOFNODION 04.11.2019**

1 **Eitem 19/197.1 - Ymddygiad Gwrthgymdeithasol o gwmpas y Dref -** Cyng. Terry Jones yn holi ynglŷn â diweddariad torri'r gordyfiant o'r gwrychyn tu cefn a ger Siop Iceland sydd yn gorchuddio golygfa glir o'r safle yma. Cadeirydd yn ymateb fod Cyfarfod i'w drefnu rhwng Swyddog o'r Cyngor Sir a'r Cyngor a Dirprwyo'r Cyngor Tref i ddatrys yr uchod. **Derbyn.**

2 **Eitem 19/199.1 - GDPR - Rheolau Diogelu Data Cyffredinol -** Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau sydd ddim wedi cwblhau'r Hyfforddiant i wneud trefniadau ar gyfer hyn gyda'r Swyddfa. Ar ddiwedd yr Hyfforddiant bydd angen danfon copi o'r Dystysgrif i'r Swyddfa.

3 **Eitem 19/199.2 - Meinciau ger Fflatiau Glan Cefni -** Cyng. Non Parry yn cadarnhau fod y trigolion yn awyddus i gael Meinciau yn yr ardal uchod, a bod ymchwil am gostau yn mynd ymlaen. **Derbyn.**

4 **Eitem 19/199.3 - (i) Ffens Post and Rail ger Afon Cefni -** Cadeirydd yn cadarnhau fod Cyngor Sir Ynys Môn yn ymwybodol o'r gwaith atgyweirio i'r uchod.

Eitem 19/199.3 - (ii) Bolard, Stryd Yr Eglwys, Llangefni - Cyng. J. Egryn Lewis yn datgan pryder ynglŷn â bolard ar y palmant sydd wedi cael ei daro ac ar ongl sydd yn achos iechyd a diogelwch i gerddwyr. **PENDERFYNWYD** tynnu hyn i sylw Adran Priffyrdd, Cyngor Sir Ynys Môn.

5 **Eitem 19/199.4 – Cyllid ar gyfer Prosiect Pobl Ifanc Lleol (Heddlu) –** Wedi ei drafod o dan Eitem 19/197.1 o'r Cofnodion. **Derbyn.**

19/200 **I DDERBYN ARGYMHELLION CYFARFOD ARBENNIG IS-BWYLLGOR Y FYNWENT A MEYSYDD CHWARAE 11.11.2019 - Materion yn Codi o'r Cofnodion Uchod :**

Clerc yn esbonio fod y Cofnodion yn cyfeirio at, ac yn ymateb i bryderon Clwb Pêl Droed Llangefni ynglŷn â Les Tŷ Clwb, Lon Talwrn. Ymatebion y Cyngor Tref wedi eu cofnodi mewn print trwm o'r Cofnodion, a hefyd fod y Cofnodion yn uniaith Saesneg :

Eitem 19/175 (f) - Wal Derfynol – Cyng. J. Egryn Lewis yn holi a oes atebion wedi dod i law ynglŷn â pherchnogaeth y wal derfynol. Clerc yn cadarnhau ei fod mewn cyswllt gyda Chyngor Sir Ynys Môn i wneud ymholiadau ynglŷn â'r uchod. **Derbyn.**

Eitem 19/175(g) - System Draenio - Cadeirydd yn cadarnhau fod dim symudiad i unrhyw gyfeiriad wedi eu gwneud ynglŷn â'r uchod. Cyng. Victor Hughes yn esbonio'r sefyllfa diweddar i'r Aelodau ac yn rhoi cyngor i'r Aelodau ddisgwyl datblygiadau cynlluniau'r tir cyfagos cyn gwneud unrhyw benderfyniad. **Derbyn.**

Aelodau yn holi os ydyw datblygwyr Ystâd Parc y Coed wedi cydymffurfio gydag amodau'r Cais Cynllunio yn ymwneud a'r system carthffosiaeth a draenio. Cadeirydd yn ymateb fod ymholiadau wedi eu gwneud gydag Adran Cynllunio, Cyngor Sir Ynys Mon, ynglyn a hyn, a

PARHAD
19/200

Swyddog yn ymateb fod dim Swyddogion Cydymffurfio ar gael i fynd allan i ymweld a'r safle. Unrhyw gwynion i'w derbyn gan Gynghorwyr fel unigolyn ac nid fel rhan o'r Cyngor Tref . Cyng. Dylan W. Rees am wneud ymholiadau gyda'r Adran Cynllunio yn ymwneud a'r Cais gwreithiol ynglyn a'r system carthffosiaeth. **Derbyn.**
Cyng. Llinos Jones yn gofyn i'r Cofnodion gael ei chyfieithu i'r Gymraeg fel bod cofnod ddwyieithog. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc wneud trefniadau i gael cyfieithu'r Cofnodion.
Yn dilyn yr uchod, **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

19/201 **I DDERBYN ARGYMHELLION IS-BWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL 18.11.2019 – Materion yn Codi o'r Cofnodion Uchod :**
Eitem 19/182 – Dyddiad y Cyfarfod Nesaf - Cadeirydd yn datgan, oherwydd ymrwymiadau Cadeirydd yr Is-bwyllgor uchod, mae'r Cyfarfod a drefnwyd ar gyfer Nos Fercher, 4ydd o Ragfyr 2019 wedi ei ohirio, gyda dyddiad arall i'w drefnu. Cyng. J. Egryn Lewis yn datgan pryder ynglyn a'r trefniadau i ohirio'r Cyfarfod ac yn tynu sylw fod yn angenrheidiol cynnal cyfarfodydd yn rheolaidd.
Yn dilyn yr uchod **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

19/202 **I DDERBYN PENDERFYNIADAU IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO 21.11.2019**
Materion yn codi o'r Cofnodion :

1 **Eitem 19/185.1 - Cais OP/2019/10 -** Cais Amlinellol ar gyfer codi 9 annedd fforddiadwy ynghyd ag adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a gwaith cysylltiedig gyda'r holl faterion wedi eu cadw'n ôl ar dir yn Tyn y Coed, Llangefni - Penderfyniad o wrthwynebiad gan Is-bwyllgor Cynllunio'r Cyngor Tref, oherwydd bod y lon yn gul a'r fynedfa ddim yn addas. Cyng. J. Egryn Lewis yn datgan pwysigrwydd o gael gwybod manylion "y materion wedi eu cadw'n ôl", ac os ydyw'r cais yn symud ymlaen gyda'r materion wedi eu cadw'n ôl. Cyng. Dylan Rees yn adrodd fod yr awgrymiad i gael blaenoriaeth trafnidiaeth i lawr y lon ddim yn addas. Cyng. Llinos Jones yn ychwanegu, oherwydd uchder y lon, y ffordd yn gul ac yn agos i'r tai, fod y trigolion yn datgan pryder am hyn.
Cyng. Dylan Rees yn adrodd ymhellach fod y trigolion wedi cysylltu gydag Arolygydd a fu i esbonio iddynt fod dim byd o'i le gyda'r Cais.

2 **Eitem 19/185.1 – Cais VAR/2019/71 –** Cais Llawn i ddymchwel yr ysgol bresennol, codi Archfarchnad newydd, gwelliannau i'r fynedfa bresennol ynghyd a gwaith cysylltiedig – Cyn Ysgol y Graig, Ystâd Ddiwydiannol - Cyng. J. Huw Owen yn holi pa archfarchnad newydd fydd ar y safle, Cyng. Llinos Jones yn cadarnhau mai LIDL fydd yn ail-leoli yna.
Yn dilyn yr uchod **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

19/203 **I DDERBYN ARGYMHELLION IS-BWYLLGOR STAFFIO A SAFONAU 25.11.2019**
Cadeirydd yn cyflwyno'r Cofnodion a'r Aelodau yn cadarnhau eu bod wedi darllen trwy'r Cofnodion. Cyng. Terry Jones yn Cynnig a Cyng. Non Parry yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion.

Cyng. Christine Roberts yn gadael y Siambr.

19/204 **SEDDI GWAG**
Ward Tudur - Cadeirydd yn arwain yr Aelodau trwy'r Cais a dderbyniwyd gan Mr. Jamie Jones. Cyng. John Lee yn Cynnig a Cyng. Dylan Rees yn Eilio i dderbyn Cais yr Ymgeisydd uchod. **PENDERFYNWYD** Cyfethol Mr. Jamie Jones fel Cynrychiolydd Cyngor Tref ar Ward Tudur.
Ward Cyngar – Cadeirydd yn arwain yr Aelodau trwy'r Cais a dderbyniwyd gan Mr. Edward

PARHAD
19/204

Gwyndaf Jones. Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig a Cyng. Ieuan Davies yn Eilio i dderbyn Cais yr Ymgeisydd uchod. **PENDERFYNWYD** Cyfethol Mr. E. Gwyndaf Jones fel Cynrychiolydd Cyngor Tref ar Ward Cyngar.
Clerc yn cadarnhau bydd llythyr o longyfarch yn cael eu hanfon i'r Ymgeisydd gyda gwahoddiad iddynt fynychu Cyfarfod Llawn 6ed o Ionawr 2020.
Yn dilyn yr uchod, Cadeirydd yn cadarnhau fod y rheolau priodol wedi eu dilyn yn unol a gofynion GDPR, i lenwi'r Seddi Gwag.
Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r Aelodau, yn dilyn ymddiswyddiad Cyng. Dylan Rees, bydd Sedd Wag, Ward Cyngar, yn cael ei hysbysebu yn ystod Mis Ionawr. **Derbyn.**

Cyng. Christine Roberts yn dychwelyd i'r Siambr.

19/205 I DDERBYN UNRHYW GYFATHREBION Y MAER

Cyngor Tref Beaumaris – Diwrnod Fictoraidd – 23.11.2019 - Cadeirydd wedi mwynhau'r Achlysur.

Cystadleuaeth – Arddangosfa Ffenestr Nadolig – Maer a'r Dirprwy Faer yn beirniadu'r Ffenestri yn ystod Nos Fawrth 3ydd o Ragfyr 2019.

19/206 MATERION YN CODI GAN AELODAU

Cyng. Ieuan G. Davies – Ardal Nant y Pandy/Dingle – Problemau gyda cwn –

Cyng. Ieuan Davies yn arwain yr Aelodau trwy ei bryderon yn dilyn profiad o gwn ddim o dan reolaeth yn y safle uchod. Cyng. Davies yn cadarnhau ei fod wedi anfon e-bost at Swyddogion Cyngor Sir Ynys Mon, sydd yn gyfrifol am ardal y Dingle, yn tynu sylw at y problemau cwn yn rhedeg yn rhydd ar hyd y llwybrau.
Cyng. Richard Parry yn awgrymu Is-ddeddf i orfodi pobl i gadw eu cwn ar dennyn.
Cyng. Ieuan Davies yn Cynnig gwahodd Warden y Dingle a Swyddog Penodol o Adran Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Sir Ynys Mon, i Gyfarfod Llawn y Cyngor Tref i ateb cwestiynau ar y broblem uchod, Cyng. Llinos Jones yn Eilio. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc wneud y trefniadau priodol ar gyfer dechrau'r Flwyddyn Newydd.
Yn dilyn yr uchod, Cyng. John Lee yn tynnu sylw, oherwydd bod dim rheolaeth i feicwyr yn Ardal y Dingle, mae hyn yn achosi perygl i gerddwyr.

19/207 ADRODDIAD Y CLERC

1 **Neuadd y Sir -** Clerc yn adrodd fod Perchennog Newydd Neuadd y Sir wedi galw i'r Swyddfa, Dydd Gwener 29ain o Dachwedd 2019 ac yn cadarnhau fod y gwres wedi ei roi ymlaen am ychydig o oriau yn ddyddiol. Bu holi'r Clerc os ydyw'r Cyngor Tref wedi cytuno i ail-leoli o Ystafell 109 er mwyn iddo gael symud ymlaen gyda'i gynlluniau. Clerc wedi ymateb fod y Cyngor Tref ddim wedi dod i unrhyw benderfyniad ar hyn. Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau fod Les y Cyngor Tref am Ystafell 109 yn parhau hyd at 2025 ac i edrych ar yr opsiynau i gyd. **Derbyn.**

2 **Noson Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen – 06.12.2019 –** Clerc yn arwain yr Aelodau trwy Gynllun Nos Wener, 6ed o Ragfyr 2019 ac yn cyflwyno Rhestr o Ddigwyddiadau ac Adloniant.
Clerc yn cadarnhau bydd Staff y Swyddfa a Gweithwyr Allanol y Cyngor Tref o gwmpas trwy gydol y Noson. Cyng. John Lee yn holi ynglyn a threfniadau ariannol ar gyfer y Noson.
Cadeirydd yn ymateb fod Deiliaid Stondinau yn cyfrannu at y Noson, ynghyd a rhai busnesau lleol wedi rhoi rhodd ariannol. Y Cyngor Tref sydd yn arwain yr Achlysur gydag unrhyw elw yn daliadwy i'r Cyngor Tref.
Cyng. Richard Parry yn diolch i'r Clerc am wneud y trefniadau ar gyfer yr uchod. Cadeirydd yn adrodd y posibilrwydd o sefydlu Grŵp i drefnu Gweithgareddau/Adloniant i'r Dref yn y dyfodol.

PARHAD

19/207

Cadeirydd eisiau diolch yn gyhoeddus i Carol Evans (Cae Garw) am ei holl waith caled yn casglu rhoddion a gwneud trefniadau ar gyfer Noson Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen. Cadeirydd yn gwerthfawrogi'r holl gymorth gan Carol.

3 **Ffurflen i Ddatgan Diddordeb Ariannol neu Ddiddordeb Ymgofrestredig –** Derbyn sylw.

4 **Sul y Cofio - 10.11.2019 -** Clerc yn cadarnhau fod Lleng Brydeinig Frenhinol wedi casglu £3,652.00 o gwmpas Siopau'r Dref. Aelodau yn cydnabod fod hyn yn swm sylweddol iawn.

19/208 **ADRODDIAD PWYLLGORAU ALLANOL**

1 **14.11.2019 – Cyngor Sir Ynys Mon-Cyfarfod Pencampwyr Iaith –** Dim Trafodaeth.

2 **19.11.2019 – Cyfarfod Adfywio Llangefni – Cofnodion Cyfarfod 10.09.2019 –**
Cyng. J. Egryn Lewis yn holi beth ydyw cyfansoddiad y Bartneriaeth a hefyd y sefyllfa ynglyn a'r Cais i'r "Foundational Economy Fund". Aelodau yn ymateb fod Swyddog wedi ei apwyntio i'r Swydd ac wedi rhoi cyflwyniad a bod pethau yn symud ymlaen.
Cadeirydd yn datgan fod Swyddog o'r Bartneriaeth wedi ymddiheuro ei bod ddim yn gallu mynychu Cyfarfod Llawn heno i ateb cwestiynau ond bod croeso i unrhyw Aelod fod yn bresennol yng Nghyfarfodydd y Bartneriaeth Adfywio.
WiFi Cymunedol - Cyng. J. Egryn Lewis yn cydnabod bod Menter Môn yn y broses o gyflogi person i gostio'r prosiect cyn symud ymlaen. **Derbyn.**

3 **19.11.2019 – Un Llais Cymru – Hyfforddiant – Ymgysylltiad Cymunedol Rhan II**

4 **27.11.2019 – Cyfarfod Cynllunio Lle**

5 **28.11.2019 - Cyfarfod Grŵp Partneriaeth Llifogydd Llangefni**

6 **03.12.2019 – Cyfarfod Cyngor Coleg Llangefni**

Dim Trafodaeth ar Eitemau 19/208.3,4,5,6 uchod.

19/209 **CYLLID**

1 **Mantolen Ariannol Mis Tachwedd 2019 -** Cyng. Ieuan G. Davies yn tynnu sylw fod balŵns iach yng Nghyfrif Gwarchodfa'r Cyngor Tref ac oherwydd hyn mewn sefyllfa i edrych ar opsiynau ynglyn a dyfodol Swyddfa'r Cyngor Tref.
Tynnwyd Sylw at y Taliadau canlynol :
P240 – Taliad am Dorri Coed yn Maes Chwarae Rhosmeirch (Oherwydd Iechyd a Diogelwch)
P248 - Taliad i Dwr Cymru - Pafiliwn/Safle Bowlio, Lon Las, Llangefni.
Yn dilyn yr uchod, Cyng. John Lee yn Cynnig a Cyng. Ieuan Davies yn Eilio i dderbyn y Fantolen Ariannol. **PENDERFYNWYD** derbyn Fantolen Ariannol Mis Tachwedd 2019.

2 **Llywodraeth Cymru – Llythyr Tachwedd 2019 – Swm Priodol o dan Adran 137(4)(A)**
Llythyr uchod wedi ei gyflwyno i'r Aelodau - Defnyddio'r wybodaeth pan bydd angen.

19/210 **ADRODDIAD MISOL CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Cyng. Dylan W. Rees yn adrodd ar y canlynol :

- Cyngor Sir yn pryderu ynglyn a gosod Cyllideb 2020/2021;
- Cyngor Sir i osod Trethi – Trafod faint o amser i Ymgynghori gyda'r cyhoedd cyn penderfynu gosod y Dreth;
- Pwyllgor Scrwtini – "The Corporate Scrutiny Committee" wedi cydnabod perfformiad Y Cynghorau gorau gyda Chyngor Sir Ynys Môn yn dod yn gyntaf am ail-gylchu.

19/211 **GOHEBIAETH A MATERION NEWYDD – Gohebiaeth**

1 **Cyngor Sir Ynys Môn - Llythyr 19.11.2019 - Gwaith Nwy, Canol y Dref -**
Cadeirydd yn adrodd Cyfarfod Cyhoeddus wedi ei drefnu yng Nghanolfan Ebenezer, Nos

PARHAD
19/211

Fawrth 10fed o Ragfyr 2019, ynglyn a'r uchod. **Derbyn.**

2 **Cyngor Sir Ynys Môn - Newyddion Sŵn y Môn - Y Cylchlythyr sy'n Dathlu Arfordir, Cefn Gwlad ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Mon –** Ar gael yn y Swyddfa.

19/212 **GOHEBIAETH : ER GWYBODAETH**

1 **Un Llaid Cymru – Materion wedi eu hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Tachwedd – Derbyn.**

2 **Materion Eraill - Materion wedi eu hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Tachwedd – Derbyn.**

19/213 **I YSTYRIED UNRHYW FATER BRYS GAN Y MAER –** Dim.

19/214 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – Nos Lun 6ed o Ionawr 2019**

Cadeirydd yn datgan rhoi gwybod i'r Aelodau pan fydd dyddiad wedi ei drefnu i gynnal Cyfarfod Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol yn ystod yr wythnosau nesaf.

CYNG. MARGARET THOMAS
CADEIRYDD

Cadeirydd yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i'r Aelodau a'r Staff.

SESIWN GAEDIG

Oherwydd natur seneitiff yr Eitem nesaf, bu cynnal y Cyfarfod Llawn mewn Sesiwn Gaeedig a gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd yn y Siambr.

CYNGOR TREF LLANGEFNI
SESIWN GAEEDIG
Cyfarfod Llawn Nos Lun 2ail o Ragfyr 2019

19/215 DATBLYGIADAU YNGLŶN Â DYFODOL SWYDDFA'R CYNGOR TREF

Cadeirydd yn adrodd i'r Aelodau'r sefyllfa bresennol Swyddfa'r Cyngor Tref.
Ers gwerthiant Neuadd y Sir, mae lleoliad Swyddfa'r Cyngor Tref, o fewn Neuadd y Sir, yn ansicr. Er bod Les yn bodoli ers 2001, mae'r Lletywr newydd yn pwysleisio fod angen ail-leoli'r Swyddfa a chodi rhent y Cyngor Tref.

Mae'r Lletywr newydd wedi rhoi gwybod i'r Clerc na fydd y Siambr ar gael at ddefnydd y Cyngor Tref o dan yr un amodau a gafwyd yn y gorffennol. Hefyd, mae wedi cynnig Swyddfa sydd ddim yn cyrraedd gofynion y Cyngor Tref.
Tynnwyd sylw fod y Lletywr newydd wedi troi system gwres yr adeilad i ffwrdd ers Mis Medi ac mae'r Staff yn gweithio o dan amodau annerbyniol.
Bydd y costau a rhagdybi'r i'r dyfodol o gynnal Swyddfa ac ystafell cyfarfod at ddefnydd y Cyngor Tref yn fwy costus na'r costau presennol.

Y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r Aelodau fod Adeilad cyfagos, sef yr Hen Lys Sirol, Ffordd Glanhwfa, Llangefni, ar werth, a bod y Clerc wedi gwneud ymholiadau am y pris gofynnol. Clerc yn adrodd mai o dan system Ocsiwn Electroneg yw'r gwerthiant, ond ei fod wedi trafod gyda'r Asiant os byddai posib gwneud cynnig uniongyrchol i'r Gwerthwr. Yn ogystal â hyn mae'r Clerc yn esbonio byddai posib gwneud Cais at Lywodraeth Cymru i gael caniatâd i geisio am gefnogaeth ariannol o'r Public Works Loan Board, i brynu'r Adeilad. Cadeirydd yn datgan fod opsiwn i logi ystafelloedd allan yn yr Adeilad i roi incwm ychwanegol i'r Cyngor Tref.

Clerc yn adrodd beth fyddai cost menthyca a hyd y term benthyca. Cadeirydd yn gofyn am ymateb yr Aelodau i'r cyflwyniad a gafwyd yn tynnu sylw at ddyfodol Swyddfa ac Ystafell Cyfarfod y Cyngor Tref.

Dyma grynodeb o'r cwestiynau a sylwadau a gafwyd gan yr Aelodau yn ystod y drafodaeth

- Cafwyd cefnogaeth gytûn gan yr Aelodau byddai Adeilad yr Hen Lys Sirol yn addas gyda photensial fel Swyddfa i'r Cyngor Tref yn y dyfodol;
- Cyng. Ieuan G. Davies yn diolch i'r Clerc am y gwaith ymchwil;
- Cyng. John Lee yn cynnig symud ymlaen efo'r datblygiadau;
- Rhent mewn un Adeilad, fel rhan o ymwchwil y Clerc, yn golygu cost o £6,500 y flwyddyn, heb gostau addasu;
- Sicrhau Gwerth am Arian;
- Sicrhau na fyddem yn colli'r cyfle i sicrhau'r dyfodol sefydlog i'r Cyngor Tref;
- Sicrhau fod Arolwg Strwythurol yr Adeilad yn cael ei gyflawni cyn rhoi blaendal;
- Clerc yn gofyn i'r Aelodau ddangos eu bod yn cytuno, trwy godi eu llaw;
- Clerc yn awyddus i dderbyn cefnogaeth yr Aelodau ar y cynnig;
- Cyng. J. Egryn Lewis yn cynnig symud ymlaen ar y ffigwr o £125,000.00.

CYNNIG A CHYTUNO - Cadeirydd yn crynhoi'r drafodaeth gan gadarnhau'r cynnig gerbron fod y Cyngor Tref yn symud ymlaen ar y ffigwr a gyfeiriwyd ato gan y Clerc, sef £125,000.00, fel pris cynnig am y Llys Sirol.

Cadeirydd yn gofyn a oes unrhyw gynnig arall, a chadarnhau nad oedd, felly gofynnwyd am bleidlais am y cynnig gerbron.

PENDERFYNWYD – fod y Cyngor Tref yn symud ymlaen ar y ffigwr o £125,000.00. **Aelodau i gyd yn cytuno**.

Cyng. Margaret Thomas
Cadeirydd

Nos Lun 2ail o Ragfyr 2019
Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni